# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 12 Ionawr 2017

Amser: 09.30 - 12.29

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3827

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Michelle Brown AC<br>Hefin David AC<br>John Griffiths AC<br>Llyr Gruffydd AC<br>Darren Millar AC<br>Julie Morgan AC |
| Tystion: | Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg<br>Steve Davies, Llywodraeth Cymru<br>Stephen Gear, Llywodraeth Cymru<br>Karen Cornish, Llywodraeth Cymru<br>Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes<br>Emma Williams, Llywodraeth Cymru<br>Tania Nicholson, Llywodraeth Cymru<br>Mair Roberts, Llywodraeth Cymru<br>Catherine Lloyd, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | Jon Antoniazzi (Clerc)<br>Gareth Rogers (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Anne Thomas (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod PDF (542KB) Gweld fel HTML (320KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau, ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Ymchwiliad i'r Grant Gwella Addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a Phlant o Leiafrifoedd Ethnig - sesiwn dystiolaeth 6

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i ddarparu nodyn ar y Fframwaith Perfformiad Addysg, yn enwedig os bwriedir iddo gymryd lle'r 'Fframwaith Canlyniadau'

## 3 Gweithredu Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru - sesiwn dystiolaeth 5

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

## 4 Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 1

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes.

Cytunodd y Gweinidog i wneud yr hyn a ganlyn:

Llunio amserlen ar gyfer ailgyhoeddi canllawiau ar ddiwallu anghenion gofal iechyd plant a phobl ifanc yn yr ysgol;

Rhannu'r wybodaeth a gafwyd gan weithgorau am greu cynlluniau datblygu unigol.

## 5 Papur(au) i'w nodi

O dan Reol Sefydlog 17.24 datganodd Llyr Gruffydd AC ei fod yn Llywydd Anrhydeddus Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol.

Nodwyd y papurau

**5.1 Llythyr gan Carol Shillabeer, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys / Cadeirydd y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP) - gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 24 Tachwedd**

**5.2 Llythyr gan Dr Jonathan Brentnall - gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 30 Tachwedd ar gyfer yr ymchwiliad i'r Grant Gwella Addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a Phlant o Leiafrifoedd Ethnig**

**5.3 Gwybodaeth ychwanegol gan Trudy Aspinwall yn dilyn y cyfarfod ar 8 Rhagfyr ar gyfer yr ymchwiliad i'r Grant Gwella Addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a Phlant o Leiafrifoedd Ethnig**

**5.4 Llythyr gan ProMo Cymru - Ymchwiliad i Ddarpariaeth Eiriolaeth Statudol**

**5.5 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu gydol Oes - Cyllid Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol yn y dyfodol**

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil – Trafod yr adroddiad drafft

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad.